

**PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH
PRIFYSGOL BANGOR**

Cyfarfod: 4 Chwefror 2015

Preseanol: Athro P Spencer (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mr Rh Dart, Mr D Fordham, Mr A Jones, Mrs M Lake, Dr J Latchford, Ms C Monks, Mr D Owen, Mrs E Parry Williams, Ms E Riches, Mr S Roberts, Athro C Tully, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

Ymddiheuriadau: Mrs L Fowlie, Athro J Hughes Dr Ll Jones, Mr W Jones, Dr L Murphy, Dr H Roberts, Athro D Shepherd, Mr Rh Taylor.

452. Nodiadau Cyn y Cyfarfod:

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Michele Lake, yr Ymarferwr Iechyd Galwedigaethol newydd i'r Pwyllgor.

453. COFNODION

Cymerwyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2014, wedi'u darllen, eu cadarnhau a'u llofnodi.

454. MATERION YN CODI

a) Cofnod 444 (a) Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol
Dr Leigh Jones yw Cadeirydd newydd yr Is-Bwyllgor.

b) Cofnod 445 Adroddiad ar Farwolaeth Drasig Ian Nicholls:

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi hysbysu'r Brifysgol nad yw bellach yn gwneud ymchwiliadau i'r Sefydliad am dorri deddfwriaeth. Mae dau Arolygydd wedi ymweld â'r Brifysgol i adrodd yn ôl i Bennaeth Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch, yr Is-Ganghellor, Deon y Coleg Gwyddorau Naturiol a Phennaeth Gwyddorau Eigion. Nodwyd fod yr Hawliad Sifil yn fater ar wahân i ymchwiliadau'r HSE ac yn parhau.

Diolchodd y Pwyllgor i Bennaeth y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch a'i gymeradwyo am ei gefnogaeth drwy gydol y broses.

c) Cofnod 446(ii) Polisi Iechyd a Diogelwch:
I'w gynnwys fel eitem Agenda.

d) Cofnod 446(iv) Gynnau a Gynnau Ffug ar Eiddo'r Brifysgol:
I'w gynnwys fel eitem Agenda.

e) Cofnod 446(v) Canllawiau i Aelodau'r Cyngor a Deoniaid Colegau:

Cytunwyd ar y Canllawiau i Ddeoniaid Colegau a Phenathiaid Adrannau gan y Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch a chânt eu cyhoeddi maes o law.

f) Cofnod 450 Adroddiad ar Goleg Bangor yn Tsiena:

Mae cyfarfod i'w drefnu gyda Dirprwy-Ddeon y Coleg ym mis Mawrth 2015, er mwyn datblygu ymhellach drefniadau diogelwch ar gyfer Coleg Bangor yn Tsiena.

455. IS-BWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH YMBELYDREDD

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 20 Ionawr 2014 a nodwyd yr eitemau allweddol isod:

- i. *Radon:* Dechreuodd y gwaith yn 2009 a gwnaed arolwg o holl adeiladau'r Brifysgol sy'n cael eu defnyddio. Yna gwnaed gwaith lliniaru radon ac ailaseswyd y lefelau radon a

chanfod eu bod o fewn y terfynau derbyniol. Er mwyn sicrhau hyder parhaus yn y mesurau lliniaru mae arolwg pellach yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, a bydd radon yn cael ei fonitro bob 3 mis. Disgwylir canlyniadau'r ymarfer hwn ym mis Mawrth 2015.

Cynhelir rhaglen i gynnal ail arolwg o bob adeilad sy'n cael ei ddefnyddio maes o law.

- ii. *Defnydd o Belydr-X - Radiograffeg Wrecsam - Ysgol Gnyddorau Gofal Iechyd*: Bydd y Swyddog Gwarchod Rhag Ymbelydredd yn cysylltu â Rheolwr yr Ysgol i gael gwybodaeth am ddosimetreg y gweithredwr a'r broses gymeradwyaeth foesegol a ddilynir wrth ddefnyddio pelydr-x ar gyfranogwyr.
- iii. *Bathodynau Dosimetreg 32P*: Mae tri bathodyn wedi dangos darlenniad cadarnhaol anghywir. Gofynnwyd i'r cyflenwr ymchwilio i hyn. Byddwn yn chwilio am gyflenwr gwahanol os yw eu hymateb yn annerbyniol.
- iv. *Ymweliad Ymgynghorydd Gwarchod rhag Ymbelydredd (RPA)*: Gwelodd yr RPA welliannau sylweddol ers ymweliad blaenorol. Nodwyd fod arolwg Cyfoeth Naturiol Cymru i'w gynnal ar 10 Chwefror i asesu trefniadau diogelwch unig ffynhonnell ymbelydrol seliedig uchel ei hactifedd y Brifysgol.
- v. *Cronfa Ddata Isotopau*: Argymhellwyd fod cronfa ddata bwrpasol yn cael ei pharatoi i gadw cofnodion stoc a sampl lleol. Parheir i ddefnyddio'r Gronfa Ddata Isotopau bresennol ar gyfer cofnodion hyfforddi ac fel cofnod cyffredinol o stociau ymbelydredd y Brifysgol.

456. IS-BWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH CEMEGOL A BIOLEGOL

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 26 Ionawr 2015 a nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. *Gwrthwennyn*: Oherwydd y cynnydd yn y nifer a'r math o nadredd gwenwynig a gedwir gan y Brifysgol, mae'r Swyddog Diogelwch Biolegol wedi ysgrifennu at yr Ymgynghorydd Damwain ac Argyfwng lleol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o wenwyno (cytotocsig a niwrotocsig) gan nadredd.
- ii. *Rheoliadau Ffrwydrion Newydd*: Mae Rheoliadau Ffrwydrion newydd wedi cael eu cyflwyno ac mae newid allweddol sy'n effeithio ar y Brifysgol sy'n ymwneud â'r angen i drwyddedu ffrwydrion wedi'u dad-sensiteiddio a'u defnyddwyr.
- iii. *Damweiniau a Dignyddiadau 2014*:
 - a. Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y digwyddiadau'n gysylltiedig â'r llygad yn 2014.
 - b. Roedd un achos o ddamwain fu bron a digwydd yn ymwneud â methiant allgyrchydd cyflymder uchel yn ystod cylchred. Er na fu'n bosib canfod union achos y methiant, mae'r camau gweithredu a ddilynodd wedi cynnwys cyflwyno rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr. Yn ogystal gwnaed arolwg o'r holl allgyrchion perthnasol a lleihau'r nifer o allgyrchion a ddefnyddir.
- iv. *Newidiadau i Reoliadau Addasu Genetig (GM)*: Mae'r Rheoliadau diwygiedig a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2014 wedi golygu llacio rhai gofynion yn ymwneud â biogaethiwo GM, er enghraifft, nid oes angen pwysedd awyr negyddol mwyach os defnyddir awyru mecanyddol ar gyfer gwaith GM Lefel Ynysu 2 (CL2). Nodwyd fod yr Is-Bwyllgor wedi cytuno na fyddai'n mabwysiadu pob lleddfiad deddfwriaethol er mwyn sicrhau y cynhelir arferion a safonau gwaith da.
- v. *Defnyddio Organebau Grŵp Perygl 3*: Mae cynlluniau ar y gweill i weithio o bosib gydag organeb Grŵp Perygl 3. Caiff y datblygiad hwn i'r Brifysgol ei ystyried ymhellach gan yr Is-Bwyllgor, a cheisir caniatâd a thrwydded gan yr HSE.
- vi. *Bioleg Synthetig*: Bydd Canolfan arfaethedig newydd o bosib yn arwain at gydweithio rhwng Biogyfansoddion, Cemeg a Gwyddorau Biolegol. Bydd y gwaith yn cynnwys bioleg synthetig. Mae'n bosib y bydd y Swyddog Diogelwch Biolegol ac eraill angen dysgu gwybodaeth berthnasol ac efallai y byddant angen hyfforddiant pellach yn y maes

hwn.

- vii. *Archwiliad Iechyd a Diogelwch*: Nodwyd fod angen rhoi ystyriaeth bellach i bennu'r ffyrdd gorau o hwyluso archwiliad o'r defnydd o gemegau mewn gweithgareddau ymchwil.

GWEITHREDU: GWJ

457. ADRODDIAD GAN GRŴP TASG Y PWYLLGOR GWEITHREDU DIOGELWCH

Cyflwynwyd papur ac adroddiad llafar, a nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. *Iechyd a Diogelwch ar Ystâd y Brifysgol*: Cynhaliwyd trafodaethau ynglŷn â cheisio cadarnhad am sut y mae'r Brifysgol yn cyflawni ei dyletswyddau cyfreithiol ar brojectau adeiladu mawr ac effaith toriadau cyllideb ar waith yn ymwneud â'r ystâd. Cafwyd cadarnhad ei bod yn cyflawni ei dyletswyddau cyfreithiol, ac ymgwymerir â gwaith pellach fel rhan o drefniant deinamig a adolygir yn rheolaidd.
- ii. *Arfau Ymosodol*: Ystyriwyd papur yn ymwneud â sut fyddai'r Brifysgol yn rheoli ac yn ymdrin ag arfau ymosodol ar ei hystâd breswyl. Caiff Rheoliadau'r Neuaddau Preswyl eu diwygio yn awr ac mae dulliau gweithredu cliriach wedi cael eu cyhoeddi i staff Diogelwch wrth ymdrin ag arfau ffug neu arfau a amheuir.
- iii. *Adroddiad Diogelwch Trydanol - Offer Trydanol Cludadwy*: Ystyriwyd adroddiad drafft ar ba mor effeithiol yw'r Brifysgol yn rheoli ei dyletswyddau i adolygu a phrofi offer trydanol cludadwy yn gyfnodol. Caiff ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch ym mis Mai.

458. ADOLYGU POLISI - GWAITH MAES

Rhoddyd crynodeb o'r Safon Bolisi, sy'n mabwysiadu egwyddorion allweddol Canllawiau ar Iechyd a Diogelwch Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau (UCEA) a Safon Brydeinig BS8848. Nodwyd y caiff y Polisi ei gefnogi gan nifer o Lawlyfrau (Ymchwil Maes Cymdeithasol a Chymunedol, Gwibdeithiau Diwrnod ac Ymweliadau Cyffredinol a Gwaith Maes Hyfforddedig a Gwaith Maes Ymchwil) a fydd yn cynnig canllawiau cyffredinol i'r sawl sy'n gyfrifol am ddatblygu, cynllunio neu arwain gwaith maes.

Bwriedir i'r Safon Bolisi Gwaith Maes ddisodli Cod Ymarfer ar gyfer Diogelwch mewn Gwaith Maes OHSU G22 (1998), a oedd wedi'i seilio ar ganllawiau'r Pwyllgor Is-Gangellorion a Phrifathrawon.

Ystyriodd y Pwyllgor y diffiniad o waith maes a ddefnyddir yn y Polisi Gwaith Maes a chytunwyd arno, ac yn dilyn ystyriaeth bellach cymeradwywyd y Safon Bolisi a Gweithdrefnau mewn Gwaith Maes.

Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r rheiny a oedd wedi cefnogi llunio'r Safon Bolisi a'r dogfennau ategol, yn arbennig staff yn IMSCaR am eu cymorth yn datblygu'r Llawlyfr Ymchwil Gwaith Maes Cymdeithasol a Chymunedol

459. DIWYGIO'R POLISI IECHYD A DIOGELWCH

Nodwyd mai cyfrifoldeb y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yw arwain ar yr arolwg o Bolisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol bob 5 mlynedd, gan gynnig newidiadau arfaethedig i'r Cyngor eu cymeradwyo. Dilynodd trafodaeth lle cytunwyd y byddai Gweithgor yn cael ei sefydlu i ymgymryd â'r gwaith hwn.

460. UFA

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 20 Mai, 2pm, Ystafell y Cyngor.